**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mawrth 2017**

## DIRPRWYO PWERAU DROS DRO CYN Y CYFARFOD BLYNYDDOL

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 I ddirprwyo pwerau o ddiwedd cyfnod mewn swydd aelodau presennol yr Awdurdod Tân ac Achub i gyfarfod cyntaf yr Awdurdod ar ôl yr etholiadau.

## Cefndir

2 Bydd etholiadau'r awdurdodau lleol yn cael eu cynnal eleni ar 4 Mai 2017. Mae Adran 26(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn dweud "ar y pedwerydd diwrnod ar ôl etholiad cyffredin –

(a) bydd y personau hynny oedd yn gynghorwyr yn union cyn yr etholiad yn ymddeol, a

(b) bydd y cynghorwyr etholedig newydd yn dechrau eu swydd."

3 Felly, mae cynghorwyr yn parhau yn y swyddi tan Ddydd Mawrth 9 Mai 2017 pan fydd y cynghorwyr etholedig newydd yn dechrau eu swydd.

4 Yn yr un modd, mae aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub yn aros yn eu swyddi hyd yr 9 Mai 2017, ond mae dyddiad eu holynwyr yn dibynnu ar ba mor gyflym mae'r cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol yn gwneud eu penodiadau yn unol ag erthyglau 12 a 13 o'r gorchymyn cyfuno. Ni fydd y fath benodiadau o angenrheidrwydd yn cael eu gwneud yn ystod cyfarfodydd cyntaf y cynghorau newydd, yn enwedig os fyddai'r penodiadau yn swyddogaethau gweithredol ddirprwywyd i gabinetau.

5 Etholwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod ar 20 Mehefin 2016. Mae Erthygl 17(2) o'r Gorchymyn Cyfuno yn dweud eu bod yn "aros yn y swydd am gyfnod o flwyddyn i'r dyddiad y cânt eu hethol". Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwrthwneud paragraff 13 sy'n dweud "bydd aelod o'r Awdurdod ….. yn aros yn y swydd am fath gyfnod .... fel a benderfynir gan yr awdurdod cyfansoddol sy'n ei benodi". Tymor mewn swydd yr holl aelodau yw hyd at yr etholiadau ym Mai 2017. Felly, hyd yn oed os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd presennol yn cael eu hailethol fel cynghorwr ac yn cael eu hailbenodi ar yr Awdurdod Tân gan eu cynghorau, ni allant ymgymryd nac ailddechrau unrhyw swydd gyda'r Awdurdod Tân oni bai fod yr Awdurdod Tân ei hunan yn penderfynu hyn yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2017. Mae cyfyngiadau tebyg yn gymwys i aelodau o'r Panel Gweithredol, Pwyllgor Archwilio ac i'r ddau aelod o'r Awdurdod sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

6 Felly, rhwng dydd Llun 8 Mai a'r cyfarfod blynyddol, sydd wedi ei drefnu ar gyfer dydd Llun 19 Mehefin, does dim trefniant ar gyfer unrhyw benderfyniadau fyddai fel arfer yn disgyn i aelodau etholedig eu cymryd.

## Cyngor

7 Yn ystod y cyfnod hwn rhaid i ddirprwyaeth briodol fod yn ei le er mwyn galluogi ymdrin ag unrhyw benderfyniad fyddai fel arfer yn disgyn i aelodau - ac na ellir ei oedi nes cyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ar ôl etholiadau Mai. Byddai'r ddirprwyaeth yn cynnwys yr holl bwerau a roddwyd i aelodau, yn cynnwys y rhai ymarferir gan y Panel Gweithredol a'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd.

8 Byddai'n amhriodol i ddirprwyaeth i gymryd unrhyw benderfyniadau o'r fath gael ei rhoi i gynghorydd neu gynghorwyr yn unig oherwydd nad oes gwarant byddai unrhyw un o'r aelodau presennol yn cael eu hailethol fel cynghorwyr na'u hailbenodi ar yr Awdurdod Tân ac Achub.

**Argymhelliad**

9 Fod pwerau'r Awdurdod Tân, ei bwyllgorau a'i ddeiliaid swyddi yn cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Trysorydd, ar gyfer y cyfnod o 9 Mai 2017 tan y cyfarfod cyntaf o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 19 Mehefin 2017.

10 Bydd y dirprwyaethau hyn yn gymwys yn unig i bwerau sy'n berthnasol i benderfyniadau na ellir yn rhesymol eu gohirio tan ddyddiad y cyfarfod cyntaf hwnnw.